**Yr Eglwys yng Nghymru yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i'r ysgol newydd yn y Bala**

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi cadarnhau, heddiw (25 Ionawr), ei hymrwymiad llawn i'r Campws Dysgu newydd 3-19 oed yn y Bala.

Mewn datganiad a gyhoeddwyd gan Gyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes Esgobaeth Llanelwy, dywedodd Rosalind Williams: "Cawsom ein gwahodd gan Gyngor Gwynedd i fod yn bartner yn y prosiect hwn ac rydym yn parhau'n llwyr ymroddedig i ddarparu'r cyfleoedd addysgol gorau i blant a phobl ifanc y Bala, Penllyn a'r ardaloedd cyfagos.

"Fe wnaethom weithredu mewn ewyllys da wrth ymateb i gais Cyngor Gwynedd i fod yn bartner yn eu cynlluniau ad-drefnu ysgolion, sy'n cynnwys cau tair ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru, sy'n cynnig addysg a werthfawrogir yn eang ar gyfer 279 o ddisgyblion.

"Fel rhan o'r broses wreiddiol, fe gynhaliodd Cyngor Gwynedd ymgynghoriad statudol ac fe ystyriwyd yr holl faterion ac ymateb iddyn nhw, yn ystod yr ymgynghoriad. Argymhellodd swyddogion Cyngor Gwynedd yr opsiwn Ysgol Eglwys hwn a phleidleisiodd aelodau'r cabinet ar gyfer y trefniant hwn yn achos addysg ysgol yn y Bala a Dolgellau yn eu cyfarfod ym Medi 2015.

"Rydym yn dal at y gwaith manwl a wnaed gan swyddogion Cyngor Gwynedd mewn ymateb i'r holl wrthwynebiadau ym mis Medi 2015. Er bod y mater hwn wedi ei drafod unwaith eto gan ei Gabinet ym mis Rhagfyr 2016, nid oes dim wedi newid. Ni fyddai gweithredu'r cynigion fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru 2013 yn afresymol o anodd, ac nid yw amgylchiadau wedi newid ers i'r cynigion gael eu cymeradwyo.

"Fel rhan o'r cynllun a gymeradwywyd gan Gyngor Gwynedd dim ond dau allan o'r 17 o leoedd ar y Corff Llywodraethol cysgodol a fyddai ar gyfer Llywodraethwyr Sylfaen o'r Eglwys yng Nghymru (un ar gyfer Esgobaeth Llanelwy ac un ar gyfer Esgobaeth Bangor). Byddai dau le yn cael eu cadw ar gyfer Llywodraethwyr Sylfaen sy'n cynrychioli traddodiadau Cristnogol eraill yn y Bala. Mae'r 13 lle arall - y mwyafrif - yn anenwadol / heb fod yn grefyddol.

"Ers i gabinet Cyngor Gwynedd bleidleisio i symud ymlaen gyda'r cynlluniau hyn ym mis Medi 2015, mae'r Eglwys yng Nghymru wedi gweithio'n galed i gefnogi'r cysylltiadau cadarnhaol sy'n cael eu datblygu yn y gymuned.

"Rydym yn parhau'n ymrwymedig i'r prosiect hwn ac yn ail-gadarnhau ein haddewid i barchu a gweithio gyda phob aelod eciwmenaidd, anenwadol a diffydd y gymuned.

"Ar ben hynny, rydym yn annog pawb sy'n gysylltiedig, ar y cam pwysig hwn, i sicrhau bod buddiannau addysgol plant a phobl ifanc y Bala yn flaenoriaeth gennym a'n bod yn symud ymlaen i'r diben hwnnw gyda thryloywder a pharch."

**DIWEDD**

**Nodyn i olygyddion:**

Gallwch weld yr adroddiad a gyflwynwyd i gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Medi 2015 ar:

https://democracy.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s1739/Item%206%20-%20Report%20-%20The%20Future%20of%20Education%20Provision%20in%20Ysgol%20y%20Berwyn%20Catchment%20Area.pdf

Gallwch weld y gwrthwynebiadau a anfonwyd at Gyngor Gwynedd fel rhan o'r ymgynghoriad cyn Medi 2015 ar:

https://democracy.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s1740/Item%206%20-%20Appendix%201%20-Analysis%20of%20Objections.pdf